Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2019

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Mawrth, lle rydych yn nodi nifer o bwyntiau pwysig mewn perthynas â chaffael.

Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Rwy'n nodi pryder y Pwyllgor mewn perthynas â lefel yr ymgysylltu â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) mewn gwirionedd, o gymharu â'r disgwyliadau gwreiddiol. Roedd hwn yn ffactor allweddol a gyfranogodd at yr adolygiad o'r GCC a Gwerth Cymru.

Mewn ymateb i adborth oddi wrth randdeiliaid cyn ac yn ystod y broses adolygu, mae'r GCC wedi ymgysylltu'n weithredol â chwsmeriaid i ddatblygu dull newydd ar gyfer contractio cenedlaethol. Mae hyn yn helpu i lunio rhaglen lai o weithgareddau a chymorth cwsmeriaid, ac iddi ragor o ffocws, ar gyfer swyddogaeth contractio cenedlaethol newydd.

Mae Penaethiaid Caffael Awdurdodau Lleol, wedi'u hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen arfaethedig newydd. Mae adborth gan GIG Cymru hefyd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Mae gwaith ymgysylltu ehangach wedi cael ei gynnal hefyd drwy nifer o grwpiau cwsmer a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Hefyd mae nifer o sectorau yn datblygu eu dulliau rhanbarthol eu hunain, mewn cydweithrediad agos â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi ar waith y gwersi a gafodd eu dysgu a'u derbyn drwy weithrediadau'r GCC a'r wybodaeth a rannwyd gan gwsmeriaid yn ystod ac ar ôl yr adolygiad.

Mae amrediad eang o wersi wedi cael eu casglu drwy'r gwaith o sefydlu a gweithredu'r GCC. Er enghraifft, mae'r rhai sy'n gysylltiedig ag argymhellion o fewn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Caffael Cenedlaethol wedi cael eu rhannu drwy rwydweithiau sicrwydd Llywodraeth Cymru.

Mae profiadau Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru yn helpu i lunio swyddogaeth contractio cenedlaethol ar gyfer y dyfodol, a bydd yr holl opsiynau ar gyfer modelau cyflawni ar gyfer y dyfodol yn cael eu hystyried. Rydym yn disgwyl i fanylion y model cyflawni newydd ddod i'r amlwg erbyn diwedd egwyl yr haf, pan fyddwn yn gallu rhannu'r holl wybodaeth sydd ar gael â'r Pwyllgor.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y newidiadau sydd eu hangen cyn gynted ag y bo modd. Gwnaeth yr adolygiad o'r GCC a Gwerth Cymru alw am newid y ffordd rydym yn meddwl yn sylweddol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried y ffordd ymlaen a chynllunio'n ofalus. Bydd ymgynghoriad ar strategaeth fasnachol a chaffael ar gyfer Cymru yn y dyfodol yn cael ei gynnal yn gynnar yn yr haf, a bydd yn arwain at raglen gaffael newydd.

Mae rhaglen sgiliau a gallu newydd yn flaenoriaeth. Clywsom gan gwsmeriaid yn ystod y broses adolygu fod datblygu gallu yn hanfodol i gyflawni canlyniadau caffael gwell. Drwy gydol yr adolygiad, gwnaethom gasglu llawer o wybodaeth am y blaenoriaethau o ran datblygu gallu. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid unwaith eto dros yr haf i gynllunio'r gwaith o gyflawni rhaglen gallu newydd, ar ôl gwblhau'r strwythur contractio cenedlaethol ar gyfer y dyfodol.

Bydd y rhaglen gaffael ar gyfer y dyfodol yn cael ei harwain gan strategaeth newydd sy'n cael ei datblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd y strategaeth yn egluro'r hyn y byddwn yn ei wneud, sut byddwn yn ei wneud, â phwy byddwn yn ymgysylltu, ac erbyn pryd y byddwn yn cyrraedd cerrig milltir penodol. Ar 3 Ebrill cynigiodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd sesiwn friffio gyda swyddogion i Aelodau'r Cynulliad ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth. Bydd swyddogion yn trefnu'r sesiwn hon i gasglu mewnbwn Aelodau'r Cynulliad.

Gwybodaeth am Fusnes

Cyn cynllun achub Interserve a chyn i Dawnus fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, roedd y Tîm Gwybodaeth Busnes ar gyfer Masnach a Chaffael eisoes wedi bod yn gwella ei allu o ran diwydrwydd ariannol dyladwy. Mae diwydrwydd dyladwy yn broses allweddol, ac rydym wedi datblygu systemau ac wedi cryfhau gwybodaeth yn y maes hwn. Mae'n bwysig nodi hefyd fod pob sefydliad a/neu sector hefyd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cymryd camau diwydrwydd dyladwy yn ystod y broses o ddyfarnu contractau ac wrth reoli contractau'n barhaus.

Mae gwaith ar ddiwydrwydd dyladwy wedi cynnwys nodi a sefydlu portffolios sy'n cynnwys cyflenwyr allweddol, sydd wedyn yn cael eu monitro'n rheolaidd. Drwy'r portffolios hyn, mae'r Tîm Gwybodaeth Busnes yn rhannu'r newidiadau i ganlyniadau ariannol cyflenwyr allweddol yr adroddir amdanynt â'r maes busnes perthnasol ac uwch-reolwyr, i'w dadansoddi ymhellach ac er mwyn cymryd camau yn ôl yr angen. Mae'r broses hon yn cynnwys cyflenwyr ar draws gweithgareddau caffael y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Sector Cyhoeddus ehangach Cymru.

Mae'r Tîm Gwybodaeth Busnes wedi ffurfio cysylltiadau â chydweithwyr Gwybodaeth Fasnachol yng Ngwasanaeth Masnachol y Goron a Swyddfa Cabinet y DU. Mae swyddogion Gwybodaeth Busnes yn derbyn diweddariadau wythnosol ar Gyflenwyr Strategol Swyddfa'r

Cabinet. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu, a lle bo hynny'n briodol, yn cael ei huwchgyfeirio i uwch-swyddogion i'w hystyried a/neu er mwyn cymryd camau.

I gryfhau perthnasau ymhellach, mae cyfarfod misol yn cael ei sefydlu rhwng swyddogion gwybodaeth busnes a chydweithwyr caffael yn Swyddfa Cabinet y DU. Defnyddir y cyfarfod hwn i drafod a rhannu gwybodaeth gan gyflenwyr ynglŷn â diwydrwydd dyladwy yn rheolaidd, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 29 Ebrill.

Dawnus

Mae eich llythyr yn gofyn am wybodaeth am fenthyciad Llywodraeth Cymru i Dawnus. Ym mis Mawrth 2018 rhoddodd Llywodraeth Cymru fenthyciad o £3.5m i Dawnus Group Ltd.

Roedd y benthyciad yn rhan o becyn, a oedd yn cynnwys estyniad arall o £3.5 miliwn i gyfleuster gorddrafft craidd Dawnus, gan fanc y Grŵp (gwaeth Llywodraeth Cymru roi arian cyfatebol). Roedd y Grŵp wedi gofyn am y cymorth i gryfhau ei sefyllfa o ran llif arian parod. Rhoddwyd y benthyciad fel rhan o gynllun trawsnewid credadwy a gyflwynwyd gan y Grŵp.

Gwnaeth gwaith diwydrwydd dyladwy gan Lywodraeth Cymru ategu gwaith a gynhaliwyd gan gyfrifyddion wedi'u penodi gan y banc. Gan gydnabod y risgiau a oedd yn gysylltiedig â darparu'r benthyciad, trafodwyd trefniant '*pari passu'* â banc y Grŵp*.* I sicrhau na fyddai cyllid sector cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn lle buddsoddiadau gan y sector preifat, cafodd cytundeb rhwng credydwyr ei drafod, a oedd yn nodi na ddylai'r cyfleusterau gorddrafft banc gael eu lleihau cyn y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

Rhoddwyd rhagor o fesurau diogelu ar waith pan gytunodd banc y Grŵp i nodi'r asedau a fyddai'n cael eu defnyddio i ad-dalu'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru yn ei bortffolio sicrhad cyfredol, ynghyd â gwaith sy'n mynd rhagddo lle mae'n bosibl nad yw Dawnus wedi cael ei dalu, gan alluogi Llywodraeth Cymru i ddiogelu ei fuddsoddiad newydd ar sail egwyddor '*pari passu*'*.* Mae gan Lywodraeth Cymru forgais siátel ar asedau Dawnus Construction Holdings Limited (perchnogion asedau'r Grŵp), a dyledeb gan Grŵp Dawnus a phob cwmni arall o fewn y grŵp.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae Grŵp Dawnus wedi ad-dalu £2 miliwn. Mae swyddogion yn gweithio gyda gweinyddwyr i adennill gweddill y cyllid sector cyhoeddus.

Rwy'n gallu cadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi i ddefnyddio'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) ar gyfer pob contract adeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnyddio cynlluniau o'r fath mewn modd deallus i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni mewn modd diogel a medrus, gan alluogi contractwyr llai, lleol a masnachwyr i dderbyn gwaith uniongyrchol a gwaith ar is-gontract. Yn unol ag egwyddor gymesuredd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 mae pob prosiect yn cael ei asesu i benderfynu a ddylai contractwyr gadarnhau bod gan eu gweithlu ardystiad CSCS neu ardystiad cyfatebol.

Costau ardystiad CSCS yw £30 am y cerdyn ei hun, a £19.50 am brawf iechyd, diogelwch a'r amgylchedd ar wahân. Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CIBT) sy'n cynnal

hyfforddiant CSCS wedi cadarnhau nad oes angen cymhwyster ar lefel benodol er mwyn gwneud cais ac mae cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu pan fydd angen.

Hoffwn i ddiolch i'r pwyllgor am ei sylwadau defnyddiol a'i fewnbwn i gamau nesaf ein gwaith ar gaffael, a byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi ar unrhyw gynnydd.

Yn gywir



Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol